






## Gweithiwr Cymdeithasol - Tîm Cefnogaeth wedi'i Thargedu

**Parhaol - 37 awr yr wythnos**

**G07 - £40,221 - £43,421**

**Lleoliad: Swyddfeydd y Sir, Y Fflint, Sir y Fflint**

Ydych chi'n weithiwr cymdeithasol profiadol gydag angerdd am helpu plant?
Ydych chi'n ffynnu mewn amgylchedd tîm cefnogol a chyfeillgar?
Os felly, rydym eisiau i chi ymuno â'n tîm yng Nghyngor Sir y Fflint. Rydym yn chwilio am Uwch Weithiwr Cymdeithasol i ymuno â'n Tîm Cefnogaeth wedi'i Thargedu Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus radd mewn gwaith cymdeithasol ac Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus cyfatebol, gydag o leiaf 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso.

Fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol, byddwch yn gyfrifol am ddarparu goruchwyliaeth i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso, myfyrwyr gwaith cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol. Byddwch yn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau ar lefel mwy cymhleth, gan gynnwys asesu a rheoli risgiau'n briodol, a goruchwylio gwaith achos ar gyfer aelodau eraill o'r tîm.

Yng Nghyngor Sir y Fflint rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn dîm cefnogol a chyfeillgar, gan ddarparu amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n annog twf a datblygiad proffesiynol. Byddwch yn ymuno â thîm o weithwyr proffesiynol angerddol sy'n ymroddedig i helpu plant mewn angen. Fel Uwch Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer y Tîm Cefnogaeth wedi'i Thargedu, byddwch yn mwynhau pecynnau cyflog cystadleuol, hawl i wyliau hael, a mynediad at gyfleoedd hyfforddiant a datblygiad parhaus. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i weithio gyda thîm sy'n ymrwymo i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i'r plant a'r teuluoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.

Felly, os ydych chi'n barod i fynd â'ch gyrfa gwaith cymdeithasol i'r lefel nesaf, ac eisiau gweithio mewn amgylchedd tîm cefnogol a chyfeillgar, gwnewch gais rŵan! Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol. Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â: Andrew Drummond - Rheolwr Tîm – Andrew.Drummond@flintshire.gov.uk Peter Robson – Rheolwr Gwasanaeth – Peter.Robson@flintshire.gov.uk Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL